OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1924 (Cy. 287)

# LLESIANT, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Tachwedd 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Tachwedd 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 53(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015(**1**).

Yn unol ag adran 54(4)(c) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Tachwedd 2015.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Darpariaeth ganlyniadol mewn perthynas â'r cyfnod cyntaf y mae rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal ymchwiliadau o'i fewn o dan adran 15 o'r Ddeddf

**3.** Er gwaethaf adran 15(6)(a) o'r Ddeddf, mae'r cyfnod cyntaf y cyfeirir ato yn is-adrannau (2) a (3) o adran 15 yn dechrau ar y dyddiad sy'n digwydd fis cyn y dyddiad y mae etholiad cyffredinol arferol i'w gynnal o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**).

(**1**) 2015 dccc 2.
(**2**) 2006 p. 32.

**Darpariaeth ganlyniadol mewn perthynas â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: Amcangyfrif incwm a gwariant 2016-2017**

**4.** At ddibenion y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017, mae paragraff 19(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf i'w ddarllen fel pe bai "heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl penodiad y Comisiynydd o dan adran 17(2)" wedi ei roi yn lle "o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi".

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

17 Tachwedd 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau canlyniadol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adran 15 o'r Ddeddf (yr egwyddor datblygu cynaliadwy: ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol) sy'n diffinio'r cyfnod adrodd ar gyfer ymchwiliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r adran hon i fod i ddod i rym lai na blwyddyn cyn etholiad cyffredinol arferol nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, efallai bod amheuaeth ynghylch pryd y mae'r cyfnod adrodd cyntaf a ddisgrifir yn is-adran (6) o adran 15 i ddechrau. Mae'r rheoliad hwn felly yn addasu adran 15(6)(a) i'w gwneud yn glir bod y cyfnod adrodd cyntaf o dan yr adran hon yn dechrau fis cyn yr etholiad nesaf (yn ymarferol 5 Ebrill 2016 fydd hyn).

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("y Comisiynydd") mewn cysylltiad â'r amcangyfrifon o incwm a gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017. Mae paragraff 19 o Atodlen 2 i'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i'r Comisiynydd, ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac eithrio'r un gyntaf, lunio amcangyfrif o incwm a gwariant y Comisiynydd a'i staff. Yn unol â pharagraff 19(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyflwyno'r amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

O gofio'r cyfnod amser ar gyfer penodi'r Comisiynydd, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ganlyniadol sy'n addasu paragraff 19(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf fel bod rhaid i'r Comisiynydd, ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017 yn unig, gyflwyno'r amcangyfrif dri mis ar ôl ei benodiad gan Weinidogion Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.